



Cynnig
GOFAL PLANT CYMRU
The CHILD CARE Offer for
WALES

Addysg gynnar a gofal • Early education and care



Beth yw'r Cynnig Gofal Plant?

Crynodeb y Cynnig

30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant am ddim i rieni cymwys sy'n gweithio a chanddynt blant 3 neu 4 oed, am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Bydd y 30 awr yn cynnwys cyfuniad o'r ddarpariaeth Meithrin Cyfnod Sylfaen (MCS) presennol sydd ar gael i bob plentyn tair a phedair blwydd oed a'r gofal plant ychwanegol a gyllidir i deuluoedd cymwys.

Sawl awr o ofal plant?

Y cynnig yw uchafswm o 30 awr o addysg a gofal plant wedi'u cyfuno. Cyfrifir nifer yr oriau o ofal plant drwy ddefnyddio'r ddarpariaeth MCS presennol yn eich awdurdod lleol fel sail, fel na fydd unrhyw gyfanswm wedi'i gyfuno yn fwy na 30 awr.

Ni ofynnir i rieni gyrchu eu hawl i addysg gynnar fel rhagofyniad cyn iddynt gyrchu elfen gofal plant y cynnig, fodd bynnag, bydd eu hawl yn cynnwys yr oriau hyn, p'un ai a ydynt yn eu cyrchu ai peidio.

Pwy fydd yn darparu'r Cynnig?

Mae pob lleoliad gofal plant sy'n **gofrestredig gyda Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)** yn gallu darparu'r cynnig beth bynnag yw eu cyfeiriad busnes. **Ni ellir** cymryd y cynnig mewn unrhyw leoliad neu gydag unrhyw berson **nad yw'n** gofrestredig gydag AGC (neu Ofsted yn Lloegr).

Bydd rhieni cymwys yn cael ymgymryd â'u gofal plant mewn unrhyw leoliad gofal plant cofrestredig sy'n gweddu eu hamgylchiadau personol a theuluol, pa un ai a yw yn y sir neu'r tu allan iddo (gan gynnwys Lloegr), cyhyd â bod y lleoliad yn ddarparwr cofrestredig ac wedi cytuno i gymryd rhan yn y cynnig, gallwch eu defnyddio ar gyfer eich oriau gofal plant.

Pa bryd all teuluoedd ddefnyddio'r Cynnig?

Ym Mro Morgannwg, bydd y cynnig yn fyw o fis Brill 2019 a bydd rhieni cymwys yn gallu gwneud cais o fis Mawrth 2019. Bydd plentyn yn gallu defnyddio'r cynnig o'r tymor ar ôl ei ben blwydd yn dair oed tan y mis Medi yn dilyn ei ben blwydd yn bedair oed pan gynigir lle addysg amser llawn iddo - gan alinio gyda'r ddarpariaeth Meithrin Cyfnod Sylfaen (MCS).

Gall rhieni gymryd y cynnig gofal plant ar unrhyw bwynt yn ystod y cyfnod hwn, cyhyd â'u bod yn gymwys i wneud felly. Dylai rhieni fod yn gallu defnyddio'r cynnig ar unrhyw adeg y dymunant yn ystod y tymor hwnnw, cyhyd â bod eu plentyn yn gymwys o ddechrau'r tymor hwnnw, neu'n gynharach.

Bydd pob rhiant a asesir fel rhywun cymwys i dderbyn y gofal plant a gyllidir yn derbyn llythyr cadarnhau. Bydd y gofal plant a gyllidir yn dechrau wedi i'r rhieni dderbyn y llythyr.

Ni fydd plant yn gymwys mwyach i ymgymryd â'r cynnig gofal plant o'r adeg pan fyddant yn cael cynnig lle addysg amser llawn gan eu hawdurdod lleol.

Pwy all ddefnyddio'r cynnig?

Er mwyn gallu defnyddio elfen gofal plant y cynnig mae'n rhaid i rieni a gwarcheidwaid:

- Bod yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig ac yn byw yn barhaol yng Nghymru. **Rhaid i'r ddau riant** fod yn gweithio mewn teulu dau riant, neu'n unig riant mewn teulu un riant;
- Fod yn ennill cyfwerth â lleiafswm wythnosol o 16 awr ar yr isafswm cyflog cenedlaethol (ICC) neu'r cyflog byw cenedlaethol (CBC) (tua £111 a £115 yr wythnos ar y cyfraddau 21-24 ICC ac CBC perthnasol).
- Rhienni sy'n ennill cyfwerth â 16 awr wths neu fwy (NMW/NLW), ond llai na £ 100k y flwyddyn

At ddiben y cynlluniau peilot, bydd angen i rieni brofi eu bod yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos, trwy gyfrwng eu henillion.

Pan fydd rhieni wedi gwahanu ond nad ydynt yn rhannu gwarchodaeth gyfartal ar y plentyn, y riant sydd â'r brif warchodaeth a fydd yn gymwys i dderbyn y cynnig (os bydd yn bodloni'r meini prawf cymhwyster). Pan fydd rhieni'n rhannu gwarchodaeth gyfartal, bydd angen i **un** riant gael ei enwebu fel y riant arweiniol ar gyfer y cynnig.

Bydd angen i rieni, gwarcheidwaid, llys-rieni a phartneriaid sy'n cyd-fyw â riant oll fodloni'r meini prawf cymhwysedd er mwyn i blentyn sy'n byw ar yr aelwyd honno allu derbyn y Cynnig.

Absenoldeb Rhiant

Gall rhieni sydd ar absenoldeb riant wneud cais am y cynnig gofal plant os byddant yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd cyn yr absenoldeb riant statudol. Fodd bynnag, mae cymhwysedd ar gyfer y cynnig gofal plant ond yn ystod y cyfnod o absenoldeb riant statudol.

Beth fydd yn digwydd os byddaf i neu'm partner yn colli ein swydd?

Os digwydd bod riant yn peidio a bod yn gymwys, rhoddir cyfnod eithrio o 8 wythnos pan fydd yn gallu parhau i fanteisio ar y cynnig.

Eithriadau i Gymhwysedd

Mae rhai amgylchiadau pan fydd rhieni yn gallu manteisio ar y cynnig pan na fyddant yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd, sef:

- lle y bydd un riant neu'r ddau i ffwrdd o'r gweithle dros dro ar dâl salwch statudol neu'n derbyn tâl mamolaeth/tadolaeth statudol;

- pan fydd un rhiant yn gyflogedig ac un rhiant yn anabl neu'n analluog yn seiliedig ar dderbyn budd-daliadau penodol neu fod ganddo gyfrifoldebau gofal sylweddol yn seiliedig ar fudd-daliadau penodol a gaiff eu derbyn ar gyfer gofalu;
- Gofalwyr perthynas, gofalwyr teulu a ffrindiau sydd wedi cymryd cyfrifoldeb dros blentyn neu lys-blentyn nad yw'n perthyn iddynt oherwydd:
 - nid oes rhieni gan y plentyn neu mae rhieni ganddo na allant ofalu am y plentyn;
 - Mae'n debygol y byddai'r plentyn fel arall yn derbyn gofal gan awdurdod lleol oherwydd pryderon yn ymwneud â lles y plentyn.

Sut allaf ddefnyddio'r oriau o ofal plant?

A oes cyfyngiad ar nifer y lleoliadau y gellir defnyddio'r cynnig ynddynt, mewn unrhyw ddiwrnod penodol?

Bydd y cynnig yn galluogi plant i gael hyd at uchafswm o ddau leoliad gofal plant yn ogystal â'u lleoliad MCS ar unrhyw ddiwrnod penodol.

Yn ystod y cyfnod gwyliau, felly, gall plentyn ddefnyddio uchafswm o ddau leoliad cofrestredig o dan y cynnig.

A oes cyfyngiadau i'r diwrnodau, adegau'r diwrnod a nifer yr oriau pan y gellir manteisio ar y cynnig?

Ar gyfer y flwyddyn hon o gynlluniau peilot, gall rhieni fanteisio ar elfen gofal plant y cynnig ar unrhyw adeg y dymunant, fodd bynnag, cyfrifoldeb y rhiant yw dod o hyd i ddarparwyr a all fodloni eu gofynion.

A all rhieni gronni eu horiau?

Na, ni chaiff system gronni/bancio ei rhoi ar waith o fis Medi 2017. Darperir cyfanswm o 30 awr yr wythnos o ddarpariaeth MCS a gofal plant wedi'u cyfuno ar gyfer rhieni a byddant yn dewis faint o'r 30 awr i'w defnyddio. Collir unrhyw oriau na chânt eu defnyddio mewn wythnos.

Beth fydd darparwyr Gofal Plant yn ei dderbyn?

Beth yw'r gyfradd tâl i ddarparwyr o dan y cynnig?

Bydd pob darparwr yn derbyn cyfradd o £4.50 yr awr ar gyfer plant sy'n derbyn y cynnig. Nid yw'r gyfradd hon yn cynnwys bwyd. Felly caiff darparwyr godi ffioedd ychwanegol ar rieni ar gyfer bwyd. Fodd bynnag, ni all hyn fod yn fwy na £7.50 y diwrnod.

Canllawiau Llywodraeth Cymru o ran gosod ffioedd ychwanegol o dan y cynnig ar gyfer sesiwn gofal dydd llawn (tua 10 awr) yw na ddylid cod mwy na £7.50 y diwrnod ar rieni (byddai hyn yn cynnwys tri phryd o fwyd am £2 yr un a 2 fyrbryd am dâl o 75c yr un). Ar gyfer sesiwn hanner diwrnod (tua 5.5 awr) ni ddylid codi mwy na £4.75 ar rieni (dau bryd o fwyd am £2 yr un ac un byrbryd am 75c). Ar gyfer gofal sesiynol pan na ddarperir pryd o fwyd ond bod plant yn derbyn byrbryd, y canllawiau yw na ddylid cod mwy na 75c y diwrnod ar rieni am fyrbryd.

Hefyd, gall darparwyr godi am weithgareddau a thrafnidiaeth megis teithiau oddi ar y safle sy'n peri cost ychwanegol neu godi/gollwng plant.

Ni all darparwyr godi cyfraddau ychwanegol fesul awr os byddent fel arfer yn codi mwy na £4.50 yr awr.

Sylwer y gall fod yn bosibl y bydd blaendaliadau/ taliadau ar gadw/ tâl gwyliau (ar gyfer gwarchodwyr plant) yn berthnasol o hyd a dylech chi siarad â'ch darparwr gofal plant am hyn cyn mynd i gontract gyda nhw.

Sawl wythnos o'r flwyddyn sydd i'r cynnig?

Sut fydd y cynnig yn gweithio y tu allan i'r tymor?

Bydd y cynnig gofal plant ar gyfer hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Mae Darpariaeth Meithrin Cyfnod Sylfaen ar gael am 39 wythnos y flwyddyn; felly bydd rhieni cymwys yn gallu manteisio ar 30 awr o ofal plant am y 9 wythnos o'r flwyddyn sy'n weddill.

Gall rhieni cymwys fanteisio ar eu 9 wythnos o ddarpariaeth gwyliau pryd bynnag y dewisant, fodd bynnag, cyfrifoldeb y rhiant yw dod o hyd i'r ddarpariaeth sydd yn gweddu eu hanghenion orau. At ddiben y cynllun peilot bydd angen i rieni ddefnyddio'u darpariaeth mewn blociau o wythnos ar y tro. Ni all oriau gofal plant gael eu cronni ar draws wythnosau.

Â phwy ddylwn i gysylltu i gael rhagor o wybodaeth?

Dylech chi gysylltu â Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro i gael rhagor o fanylion.

Ffoniwch: 01446 704704

E-bost: fis@valeofglamorgan.gov.uk

Facebook: [facebook.com/VOGFIS](https://www.facebook.com/VOGFIS)

Twitter: @VALEFIS

